**Atodiad A**

**Diwygiad i Ddatganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Rheol C9 "Adfer Pensiwn Gweddwon"**

## Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992

| Rheoliad | Esboniad | Penderfyniad GC | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Rheol C9 - Adfer pensiwn gweddwon | O dan Gynllun 1992, nid oes gan berson sydd â hawl i bensiwn gweddw sy'n priodi, yn ailbriodi, yn ffurfio partneriaeth sifil neu bartneriaeth sifil ddilynol hawl i dderbyn unrhyw daliad ar gyfrif y pensiwn mewn perthynas ag unrhyw gyfnod dilynol; ond os caiff y briodas neu'r bartneriaeth sifil ei diddymu neu os bydd y parti arall yn marw, caiff yr Awdurdod Tân ac Achub dalu'r pensiwn cyfan neu unrhyw ran ohono am y cyfnod ar ôl y diddymiad neu'r farwolaeth y maent yn ei ystyried yn rhesymol. | Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn adfer pensiwn cyn-briod ar ddiwedd ailbriodas newydd neu bartneriaeth sifil neu gyfnod o fyw ar y cyd; fodd bynnag, bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail unigol gan yr Awdurdod, os bydd buddiolwr blaenorol yn gwneud cais. | Mae'r disgresiwn hwn yn unol â'r diwygiadau a wnaed yn 2017 ac mae'n berthnasol yn ôl-weithredol hyd Ebrill 2015. |